**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Gregg
Cadeirydd
Trafnidiaeth Cymru
Canolfan QED
Y Brif Rodfa
Ystad Ddiwydiannol Trefforest
Trefforest
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

21 Mai 2018

Annwyl Nick

**LLYTHYR CYLCH GWAITH INTERIM 1 EBRILL TAN 30 MEHEFIN 2018**

Mae'r contract rhwng Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") a Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr Erthyglau Cymdeithasu y cytunwyd arnynt a'r Cytundeb Rheoli a gymeradwywyd, yn ogystal â'r Llythyr Cylch Gwaith hwn a'r Cynllun Busnes cysylltiedig a baratowyd gan y Cwmni ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith hwn yn amlinellu cylch gwaith gweithredol y Cwmni ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2018 (y "Cyfnod"), a maint y cyllid a fydd ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod i helpu'r Cwmni i gyflawni'r cylch gwaith hwnnw. Mae'r llythyr hefyd yn nodi'r gofynion y dylai'r Cwmni eu bodloni o ran cynllunio busnes ac adrodd.

Crëwyd Trafnidiaeth  Cymru i gefnogi'r weledigaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu system drafnidiaeth integredig yng Nghymru a fydd yn gweddnewid y sefyllfa bresennol, gan ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy, fforddiadwy, diogel, o ansawdd uchel i bawb.

Dylai amcanion craidd y Cwmni ar gyfer y Cyfnod gyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, er mwyn creu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Dylai'r Cwmni, fel sefydliad, weithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant. Dylai fod yn uchelgeisiol a dylai fynd ati i feithrin cysylltiadau ag eraill a gwneud ei waith, a helpu i gyflawni'r amcanion a bennir mewn ffordd gysylltiedig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gweithgareddau craidd**

Ar gyfer y Cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2018, bydd Trafnidiaeth Cymru yn:

- Cwblhau'r broses ar gyfer caffael partner gweithredu a datblygu;
- Rheoli masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau a pharatoi ar gyfer y broses drosglwyddo;
- Sefydlu cynghrair ar gyfer fframwaith Cyflenwi Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy (STRIDE) a digwyddiadau ymgysylltu â Busnesau Bach a Chanolig;
- Sefydlu Uned Ddadansoddi o fewn y Cwmni, sy'n seiliedig ar Fodel Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru;
- Sefydlu Uned Fusnes y Gogledd;
- Cyflwyno prosiectau sy'n ymwneud â'r seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:
    - brosiectau i helpu i gyflwyno metros De a Gogledd-ddwyrain Cymru;
    - Gorsaf Bow Street; a
    - Gorsaf Llan-wern a Chyfleuster Cadw Trenau ar gyfer Digwyddiadau Mawr;
- Darparu gwasanaeth cynghori ac ymgynghoriaeth proffesiynol, a datblygu'r achos dros fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd drwy 'Achosion Amlinellol Strategol y Rhaglen' gan gynnwys achosion busnes unigol ac astudiaethau dichonoldeb pan fo angen;
- Darparu gwasanaethau rheoli prosiectau mewn cysylltiad â phrosiectau trafnidiaeth; a
- Chytuno ar drefn adrodd ar berfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau/allbynnau i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl feysydd gwasanaeth.

**Dyraniad Ariannol**

Mae uchafswm y cyllid sydd ar gael i'r Cwmni ar gyfer y Cyfnod wedi'u nodi isod ac maent yn seiliedig ar y rhagolygon a'r categorïau refeniw a gwariant cyfalaf yng nghynllun busnes drafft Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 2018/19:

| | **Terfyn** |
|---|---:|
| Gwariant Refeniw | £4,032,000 |
| Gwariant Cyfalaf | £6,624,000 |

Bydd y cyllid yn cael ei dalu i Trafnidiaeth Cymru fel grant bob chwarter ymlaen llaw. Bydd unrhyw daliadau a wneir i'r Cwmni yn unol â'r Terfyn Gwariant Refeniw a'r Terfyn Gwariant Cyfalaf yn cynnwys unrhyw TAW y bydd gofyn i Trafnidiaeth Cymru ei thalu ond na fydd yn gallu ei hadennill.

Cyfrifoldeb y Cwmni yw sicrhau bod gwariant yn cael ei reoli yn unol â'r Erthyglau Cymdeithasu a'r Cytundeb Rheoli a'r canllawiau perthnasol. Yn benodol, ni chaiff y Cwmni drosglwyddo arian rhwng y Terfyn Gwariant Refeniw a'r Terfyn Gwariant Cyfalaf heb gael caniatâd Llywodraeth Cymru ymlaen llaw. Rwyf yn disgwyl i'r Cwmni gydymffurfio â'r terfynau gwariant hyn ac i roi gwybod am unrhyw newidiadau a ragamcenir cyn gynted ag y bo modd, gan wneud hynny drwy'r adroddiadau monitro misol.

**Cynllun Busnes Trafnidiaeth Cymru**

Byddaf yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith terfynol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2018 a 31 Mawrth 2019 cyn 1 Mehefin. Mewn ymateb, dylai'r Cwmni lunio'r Cynllun Busnes terfynol gyfer 2018/19 erbyn 30 Mehefin.

**Monitro Perfformiad**

Yn ogystal â'r trefniadau a nodir yn y Cytundeb Rheoli, bydd y cynnydd a wneir gan y Cwmni o ran cyflawni'r amcanion yn y Cylch Gwaith a’r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a chithau fel Cadeirydd y Cwmni.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cydnabod bod y llythyr wedi dod i law a'ch bod yn fodlon â'r manylion sydd ynddo.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport